**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

23 Tachwedd 2016

Annwyl Weinidog

**Ymchwiliad i Waith Ieuenctid**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Tachwedd mewn ymateb i'r ohebiaeth gan y Pwyllgor ynghylch trefniadau cyllido ar gyfer Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (y Cyngor).

Fodd bynnag, nid yw'ch ymateb yn mynd i'r afael â'r holl gwestiynau a gafwyd yng ngohebiaeth y Pwyllgor. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Ar ba ddyddiad y gwnaethoch chi benderfynu na fyddai'r Cyngor yn cael cyllid ar gyfer 2017-18?
2. Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Cyngor, y grŵp cyfeirio gwaith ieuenctid neu'r sector ehangach cyn ichi wneud y penderfyniad hwnnw?
3. Ar ba dystiolaeth y gwnaethoch chi seilio eich penderfyniad i beidio ag ariannu'r Cyngor ar gyfer 2017-18?
4. Pam y gwnaethoch chi newid eich meddwl o ran aros tan fis Rhagfyr i wneud penderfyniad ynghylch model ar gyfer y dyfodol?
5. Pam y bu'n angenrheidiol gwneud y penderfyniad cyn i'r Pwyllgor gwblhau ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid?

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael ymateb gennych.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565